Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism and Communications Committee

## Held on Wednesday, 22 October 2025 at 6.30pm

## Hybrid Meeting at Ostreme Centre and via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), and Tim Zhou.

**Officers Present:** Kerry Grabham – CO and Ian Hughes - CSO

**CT2510-01** **Apologies for Absence**

Cllr Martin O'Neill, Laura Gilbert, David Lewis and Cllr Richard Jarvis.

**CT2510-02** **Declarations of Interest**

None

**CT2510-03** **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meetings held on 24 September 2025 as a true record.

**RESOLVED:** to approve the meeting minutes held on 24 September 2025 as an accurate record.

**CT2510-04** **Update on actions from previous meetings.**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.

Mumbles Community Council

**CT2510-05** **Budget Monitoring Report to 31/08/2025 - RFO, Paul Beynon**

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been distributed to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting.

No questions relating to the reports were raised with the CO during the meeting

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31 August 2025

**CT2510-06** **Budget 2026/27**

The RFO had previously circulated the Budget Timetable 2026/27 report to the Committee, the report outlined the actions required to be taken by Council and Committees leading up to the approval of the budget and precept by Council by 31/01/2026.

Cllr Marshall stated that he would be submitting a budget proposal form in relation to reintroducing The Mumbles Boules Competition at Southend Gardens. This competition covers all age ranges and abilities and would entail a nominal fee for participation with proceeds going to a local charity. There is a cup already in existence for the winner and budget requirements would be minimal covering items such as hiring the venue.

The CO reminded Councillors of the need to submit budget proposal forms before 31.10.2025.

**RESOLVED** that budget proposal forms be submitted by e-mail to the RFO before 31st October 2025.

**CT2510-07** **Ideas/Events for The Hub**

The CO reminded The Committee that Full Council had agreed that in the first instance recommendations for The Hub are to be submitted to a committee currently consisting of The CO, Hannah Hunter and Natalie Williams with opportunities available for an appeals process.

The CO was also mindful that in terms of planning future events the existing arrangements for The Hub with MCC finish at the end of December 2025. Christmas events at The Hub to be discussed under relevant agenda item (Christmas **CT2510-08**)

Mumbles Community Council

The Chair, Cllr O'Connor stated that the 'Toast and Toys' initiative for parents would be commencing from 23rd October between 9am and noon.

Cllr Marshall hoped to progress the following ideas as potential events for The Hub in the future:

- Cabaret Evenings
- Opera Suppers
- West End type events
- Other musical events.

**RESOLVED** Any event ideas for The Hub to be submitted by e-mail to CO for the attention of The Hub Recommendations Working Group.

**CT2510-08** **Christmas 2025**

Following on from the success of the land train at Christmas in 2024 it was the consensus of the committee that a similar event should be held again in 2025. The cost of arranging a land train is £240 with additional expenditure required for children's selection chocolate boxes etc.

**RESOLVED** The cost of arranging a land train and additional expenditure to be paid for through delegated powers of CO and RFO. In addition, where necessary the cost of Christmas motifs and lights to be covered through same delegated powers.

Currently each of the four wards within MCC has a separate budget of £750 for Christmas parties. Whilst these are currently run separating consideration was given to combining some or all of these parties thereby simplifying the necessary arrangements. However, the individual character of each ward together with the demographics of the area was also considered.

**RECOMMENDEDED** To either retain existing system of each of the four wards being responsible for Christmas parties or whether to 'pool' resources into one party covering the whole of MCC with arrangements being made to facilitate transport for residents to the event.

**RECOMMENDED** As an alternative to the above recommendation consideration be given to holding two Christmas parties within MCC, with two wards amalgamating for each of the two proposed events.

Mumbles Community Council

## CT2510-09 MumblesFest 2026 – Update

The date for MumblesFest 2026 has been confirmed as being on the 6th June 2026.

The Committee agreed that the bookings of acts and other arrangements need to be progressed however no payments can be made until April 2026 with budgets having to be agreed by Full Council in January 2026.

**ACTION** Whilst enquiries can be made into potential acts for June's event, CSO to raise approval of expenditure as an agenda item at January's Committee Meeting.

## CT2510-10 Ostreme Outside Light Update

The Chair Cllr O'Connor informed the Committee that the outside lights at Ostreme are operational and that the next event is planned for 24th October 2025, when the lights will be illuminated at the request of the RNLI to mark polio.

## CT2510-11 Newsletter Update

The Chair, Cllr O'Connor informed the committee that preparations are in hand to publish MCC Newsletter within the agreed timescales.

## CT2510-12 Mumbles Folk and Blues Festival Feedback

Cllr Marshall updated The Committee that the 'taster' event held at the Victoria Inn was successful and would be arranging for a brief update to be provided to Cllr O'Connor for inclusion within The MCC Newsletter.

## CO2510-13 Potential purchase of Marquee by MCC, including policies such as priority use, storage and loaning of marquee

Prior to the meeting The CO had distributed a draft marquee loan policy to committee members.
The use of a marquee is not required by MCC prior to 2026

**RESOLVED** The draft marquee policy to be taken to MCC's Policy Working Group for consideration.

Mumbles Community Council

**CO2510-14** **Recruitment of marketing officer**

The participation of councillors, particularly those connected to the hosting of events within MCC was discussed in relation to the recruiting process and interviewing of candidates.

The CO detailed that the Personnel Committee would be convening on 29th October when the job description would be discussed and questions for the candidates be considered. Each of the candidates will be asked the same questions which will form part of a fair matrix system thereby allowing the most suitable candidate to be successful.

**RESOLVED** Any Councillor wishing to participate in either process will need to e-mail The CO beforehand, who will also check whether another councillor's participation with the Personne Committee is appropriate in such circumstances.

**CO2510-15** **Training Plan**

The CO highlighted the need for Councillors to participate in relevant training courses. Examples include health and safety and employment law. The CO regularly circulates lists of courses available.

In answer to councillors' questions the CO confirmed that courses are available for first aid training, food hygiene and safeguarding training.

**The meeting ended at 7.22pm.**

**Next Meeting Wednesday 26th November 2025 at 2.00pm**

# Cofnodion y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu
# Cynhaliwyd ddydd Mercher, 22 Hydref 2025 am 6.30pm
# Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-Gadeirydd), a Tim Zhou.

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Prif Swyddog ac Ian Hughes - Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**CT2510-01** **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd Martin O'Neill, Laura Gilbert, David Lewis a'r Cynghorydd Richard Jarvis.

**CT2510-02** **Datganiadau o fuddiant**
Dim

**CT2510-03** **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2025 fel cofnod cywir.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Medi 2025 fel cofnod cywir.

**CT2510-04** **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**
Rhoddodd y swyddog cymorth pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

**PENDERFYNWYD:** Diweddaru'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu.

**CT2510-05** **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Awst 2025 – y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon**

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r swyddog cymorth pwyllgorau na'r swyddog ariannol cyfrifol cyn y cyfarfod.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiadau gyda'r prif swyddog yn ystod y cyfarfod

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Awst 2025

**CT2510-06** **Cyllideb 2026/2027**

Roedd y swyddog ariannol cyfrifol wedi dosbarthu adroddiad ar amserlen y gyllideb ar gyfer 2026-2027 i'r pwyllgor yn flaenorol, ac roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau gweithredu y mae'n ofynnol i'r cyngor a'r pwyllgorau eu cymryd cyn i'r cyngor gymeradwyo'r gyllideb a'r praesept erbyn 31 Ionawr 2026.

Dywedodd y Cynghorydd Marshall y byddai'n cyflwyno ffurflen cynnig cyllideb mewn perthynas ag ailgyflwyno Cystadleuaeth Boules y Mwmbwls yng Ngerddi Southend. Mae'r gystadleuaeth hon yn croesawu chwaraewyr o bob oed a gallu a chodir ffi fach i gymryd rhan, gyda'r elw'n mynd i elusen leol. Mae cwpan eisoes yn bodoli ar gyfer yr enillydd a byddai'r gofynion o ran cyllideb yn isel, i dalu am agweddau megis llogi'r lleoliad.

Atgoffodd y prif swyddog y cynghorwyr o'r angen i gyflwyno ffurflenni cynnig cyllideb cyn 31 Hydref 2025.

**PENDERFYNWYD**bod ffurflenni cynnig cyllideb yn cael eu cyflwyno i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol dros e-bost cyn 31 Hydref 2025.

**CT2510-07** **Syniadau / digwyddiadau ar gyfer yr Hyb**

Atgoffodd y prif swyddog y pwyllgor fod y cyngor llawn wedi cytuno y dylid cyflwyno argymhellion ar gyfer yr Hyb yn y lle cyntaf i bwyllgor sy'n cynnwys y prif swyddog, Hannah Hunter a Natalie Williams ar hyn o bryd, gyda chyfleoedd ar gyfer proses apelio.

O ran trefnu digwyddiadau yn y dyfodol, roedd y prif swyddog hefyd yn ymwybodol fod y trefniadau presennol ar gyfer Yr Hyb gyda Chyngor Cymuned y Mwmbwls yn dod i ben ddiwedd mis Rhagfyr 2025.
Digwyddiadau'r Nadolig yn yr Hyb i'w trafod o dan yr eitem berthnasol ar yr agenda (Nadolig **CT2510-08**)

Dywedodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y byddai'r fenter 'Tost a Theganau' i rieni yn dechrau ar 23 Hydref rhwng 9am a hanner dydd.

Roedd y Cynghorydd Marshall yn gobeithio datblygu'r syniadau canlynol fel digwyddiadau posibl ar gyfer yr Hyb yn y dyfodol:

- Nosweithiau cabaret
- Swperau opera
- Digwyddiadau tebyg i'r West End
- Digwyddiadau cerddorol eraill.

**PENDERFYNWYD** Cyflwyno unrhyw syniadau ar gyfer digwyddiadau ar gyfer yr Hyb dros e-bost at y prif swyddog i sylw Gweithgor Argymhellion yr Hyb.

**CT2510-08** **Nadolig 2025**

Yn dilyn llwyddiant y trên bach dros gyfnod y Nadolig y llynedd, consenswS y pwyllgor oedd y dylid cynnal digwyddiad tebyg eto yn 2025. Mae'r gost o drefnu trên bach yn £240, gyda gwariant ychwanegol ar gyfer blychau anrhegion siocled i'r plant ac ati.

**PENDERFYNWYD** talu am y trên bach a'r costau ychwanegol drwy bwerau dirprwyedig y prif swyddog a'r swyddog ariannol cyfrifol.Yn ogystal â hyn, lle bo angen, dylid talu costau addurniadau a goleuadau Nadolig drwy'r un pwerau dirprwyedig.

Ar hyn o bryd, mae gan bob un o'r pedair ward sy'n rhan o Gyngor Cymuned y Mwmbwls gyllideb ar wahân o £750 ar gyfer partïon Nadolig. Er y cânt eu trefnu ar wahân ar hyn o bryd, ystyriwyd cyfuno rhai o'r partïon, neu bob un ohonynt, a thrwy

wneud hynny, symleiddio'r trefniadau angenrheidiol. Fodd bynnag, ystyriwyd nodweddion unigol pob ward ynghyd â demograffeg yr ardal hefyd.

**ARGYMHELLWYD** Naill ai cadw'r system bresennol gyda phob un o'r pedair ward yn gyfrifol am eu partïon Nadolig eu hunain, neu 'gronni' adnoddau ar gyfer un parti sy'n cwmpasu ardal gyfan Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gyda threfniadau'n cael eu gwneud i hwyluso cludiant i'r digwyddiad ar gyfer trigolion.

**ARGYMHELLWYD** Fel dewis amgen i'r argymhelliad uchod, y dylid ystyried cynnal dau barti Nadolig yn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gyda dwy ward yn uno ar gyfer pob un o'r ddau ddigwyddiad arfaethedig.

## CT2510-09 Gŵyl y Mwmbwls 2026 – yr wybodaeth ddiweddaraf

Cadarnhawyd y bydd Gŵyl y Mwmbwls 2026 yn cael ei chynnal ar 6 Mehefin 2026.

Cytunodd y pwyllgor bod angen bwrw ymlaen â'r trefniadau i archebu perfformwyr a threfniadau eraill. Fodd bynnag, ni ellir gwneud unrhyw daliadau tan fis Ebrill 2026 a rhaid i'r cyngor llawn gytuno ar y gyllideb ym mis Ionawr 2026.

**CAM GWEITHREDU** Er y gellir gwneud ymholiadau am berfformwyr posibl ar gyfer y digwyddiad ym mis Mehefin, bydd y swyddog cymorth pwyllgorau yn rhoi eitem ar yr agenda ynghylch cymeradwyo gwariant yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Ionawr.

## CT2510-10 Goleuadau allanol Canolfan Ostreme – yr wybodaeth ddiweddaraf

Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y pwyllgor fod y goleuadau allanol yn Ostreme yn weithredol a bod y digwyddiad nesaf wedi'i gynllunio ar gyfer 24 Hydref 2025, pan fydd y goleuadau'n cael eu goleuo ar gais Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub i nodi Diwrnod Rhyngwladol Polio.

## CT2510-11 Cylchlythyr - yr wybodaeth ddiweddaraf

Hysbysodd y Cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, y pwyllgor fod paratoadau ar y gweill i gyhoeddi Cylchlythyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Mumbles Community Council

**CT2510-12** **Adborth ar Ŵyl Werin a Blŵs y Mwmbwls**

Hysbysodd y Cynghorydd Marshall y pwyllgor fod y digwyddiad 'blasu', a gynhaliwyd yn y Victoria Inn, wedi bod yn llwyddiannus ac y byddai'n paratoi diweddariad byr i'r Cynghorydd O'Connor i'w gynnwys yng Nghylchlythyr Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

**CO2510-13** **Prynu pabell fawr, o bosib, gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls, gan gynnwys polisïau megis defnydd blaenoriaethol, storio a rhoi benthyg y babell fawr**

Cyn y cyfarfod, rhannodd y prif swyddog bolisi drafft ar gyfer rhoi pabell fawr ar fenthyg i aelodau'r pwyllgor.
Nid yw Cyngor Cymuned y Mwmbwls angen defnyddio pabell fawr cyn 2026

**PENDERFYNWYD** Cyflwyno'r polisi pabell fawr ddrafft i Weithgor Polisi Cyngor Cymuned y Mwmbwls i'w ystyried.

**CO2510-14** **Recriwtio swyddog marchnata**

Trafodwyd cyfranogiad cynghorwyr, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â chynnal digwyddiadau yn ardal Cyngor Cymuned y Mwmbwls, mewn perthynas â'r broses recriwtio a chyfweld ymgeiswyr.

Nododd y prif swyddog y byddai'r Pwyllgor Personél yn ymgynnull ar 29 Hydref, pan fydd y swydd-ddisgrifiad yn cael ei drafod a'r cwestiynau i'r ymgeiswyr yn cael eu hystyried. Gofynnir yr un cwestiynau, a fydd yn rhan o system fatrics deg, i bob un o'r ymgeiswyr, gan sicrhau bod yr ymgeisydd mwyaf addas yn llwyddiannus.

**PENDERFYNWYD** Bod angen i unrhyw gynghorydd sy'n dymuno cymryd rhan yn y naill broses neu'r llall anfon e-bost at y prif swyddog ymlaen llaw, a fydd hefyd yn gwirio gyda'r Pwyllgor Personél a yw cyfranogiad cynghorydd arall yn briodol mewn amgylchiadau o'r fath.

Mumbles Community Council

**CO2510-15** **Cynllun hyfforddi**

Tynnodd y prif swyddog sylw at yr angen i gynghorwyr fynychu cyrsiau hyfforddi perthnasol. Mae enghreifftiau'n cynnwys iechyd a diogelwch a chyfraith cyflogaeth. Mae'r prif swyddog yn rhannu rhestrau o gyrsiau sydd ar gael yn rheolaidd.

Mewn ateb i gwestiynau'r cynghorwyr, cadarnhaodd y prif swyddog fod cyrsiau ar gael ar gyfer hyfforddiant cymorth cyntaf, hylendid bwyd a hyfforddiant diogelu.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.22pm.**

**Cyfarfod nesaf dydd Mercher 26 Tachwedd 2025 am 2pm**